



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

Meini Prawf Cymhwysedd Llawn – Rheoli Ystâd person a oedd heb gofrestru

Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru

Rheoli Ystâd pan fydd person heintiedig wedi marw cyn gwneud cais i ymuno â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru neu unrhyw gynllun arall yn y Deyrnas Unedig

Lle y bydd person (y credir iddo gael ei heintio â Hepatitis C a/neu HIV yn dilyn triniaeth â gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe gan y GIG) wedi marw cyn gwneud cais i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, gallwch o hyd wneud cais i'r cynllun.

I wneud hyn, bydd angen i chi ddarparu'r un wybodaeth ag yn y 'Meini Prawf Cymhwysedd Llawn ar gyfer ceisiadau Hepatitis C Cam I (cronig), Cam II (datblygedig) neu HIV newydd' i ddangos y byddai'r person wedi bod yn gymwys i gael cymorth pe bai o hyd yn fyw. Hefyd, bydd angen i chi ddangos eich bod yn rheoli ystâd y person fel yr ysgutor neu'n gweithredu ar ran / neu gyda chaniatâd yr ysgutor neu, fel arall, bod gennych awdurdod i hawlio ar ei ran (gweddw, gŵr gweddw, partner sifil, partner neu yn lle unrhyw bartner, plant dibynnol adeg marwolaeth).

Yn ogystal, os derbynnir y person sydd wedi marw i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, mae'n bosibl y gallwch wneud cais am daliad pellach fel gweddw, gŵr gweddw neu bartner sifil y buddiolwr.

Mae ffurflenni cais a chanllawiau ar gael ar wefan Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. Cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru os oes gennych unrhyw ymholiadau, os nad ydych yn siŵr pa ffurflen i'w llenwi, neu os hoffech help i lenwi'r ffurflenni. Os bydd arnoch angen copi caled o'r ffurflen, cysylltwch â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ac anfonir ffurflen atoch yn y post.